Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Carco Caerffili**

**Ysgol Gymraeg Caerffili**
**Stryd Parc-y-Felin**
**Caerffili**
**CF83 3AH**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

12/01/2022

## Ynglŷn â Chlwb Carco Caerffili

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Menter Iaith Sir Caerffili |
| Lleoedd cofrestredig | 35 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Tachwedd 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |

***Llywodraeth Cymru*** © Hawlfraint y Goron 2022.
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth ar sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn rhoi phwyslais cryf ar blant yn rheoli eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda ac maent yn hapus ac yn edrych ymlaen at fynychu'r cylch meithrin. Mae cyfleoedd ganddynt i ddysgu a dod yn annibynnol a datblygu eu sgiliau trwy amrediad o brofiadau a chwarae o ansawdd uchel. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â staff a phlant eraill, sydd yn gwneud iddynt deimlo'n saff a diogel.

Mae'r staff yn broffesiynol ac â chymwysterau addas ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol mewn ymateb i COVID-19. Maent yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ddiddorol ac yn ysgogol ac yn ysgogi dychymyg y plant. Mae'r staff yn cydweithio'n dda ac yn mwynhau eu gwaith.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda iawn. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol. Mae amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a phrofiadau, dan do ac yn yr awyr agored, yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gref yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac yn gwrando ar y plant, y rhieni a'r staff, gan eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi'n dda ac yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu da i gadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol. Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chofnodion ar waith. Mae'r rhieni'n llawn canmoliaeth ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Gwrandewir ar y plant, sy’n gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn dewis eu gweithgareddau'n rhydd ac yn gwybod y byddant yn derbyn cymorth neu gefnogaeth os ydynt yn gofyn amdano. Mae'r plant yn ymwybodol o'r arferion dyddiol ac yn gwybod beth i’w ddisgwyl yn ystod y sesiynau. Er enghraifft, mae plant yn gwybod ei bod yn amser byrbryd, ac maent yn gwybod pryd mae'n amser chwarae yn yr awyr agored. Mae hyn yn darparu sicrwydd i'w diwrnod ac yn helpu'r plant i ymgartrefu'n hawdd. Maent yn cael eu hannog i fynegi eu hoffterau a'u barn ac yn derbyn cymorth i gymryd rhan a mynegi eu hunain. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch da, gan ddangos bodlonrwydd ar yr amrediad eang o adnoddau dysgu a chwarae sydd ar gael iddynt. Yn ystod amser byrbryd, fe wnaeth nifer o blant ganu nifer o ganeuon y maent yn eu hadnabod yn dda.

Mae'r plant yn hapus a diogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch yn unol â’u hoedran a’u cam datblygu. Mae'r holl blant yn mynychu'r un ysgol ac yn mwynhau'r parhad o fynychu gwasanaeth ar wahân gyda'i gilydd. Mae ganddynt deimladau amlwg o hoffter gyda'r staff, sy'n deall eu hanghenion ac yn darparu gofal cyson. Maent yn hyderus wrth fynd at y staff am gysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Roedd un plentyn a oedd yn ansicr yn cael sylw agos gan aelod o staff a arhosodd gyda'r plentyn i roi cysur a chymorth yn ôl yr angen. Mae plant iau yn y gwasanaeth cofleidiol yn dechrau rhannu ac yn barod i helpu, gan drosglwyddo creonau i'w gilydd, gweithio mewn parau a dewis straeon. Maent yn awyddus i ddangos a siarad am eu gweithgareddau, ac maent yn hapus i rannu gwybodaeth am eu teuluoedd a'u diddordebau.

Caiff y plant gyfleoedd da iawn ar gyfer chwarae dychmygus ac maent yn mwynhau rhannu ystod o weithgareddau chwarae rôl, megis gwneud bwyd a diodydd yn y gornel gartref a hefyd yn eu milfeddygfa. Mae'r plant yn cael ymarfer corff rheolaidd ac awyr iach ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser y maent yn ei dreulio yn chwarae'n egnïol yn yr awyr agored. Maent yn edrych ymlaen at chwarae yn yr awyr agored mewn gardd sydd ag adnoddau da. Mae gweithgareddau chwarae anniben gyda phaent a dŵr yn rhoi'r cyfle i'r plant fod yn greadigol a chael hwyl. Roedd y plant yn awyddus i ddangos y cardiau yr oeddent yn eu gwneud i ddathlu Santes Dwynwen.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn deall y drefn o dacluso wrth newid gweithgareddau. Mae'r plant yn dod o hyd i'w heiddo eu hunain ac yn clirio ar ôl bwyta. Maent yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad sy'n perthyn i gwblhau'r tasgau hyn. Mae bron pob un plentyn yn deall yr angen i gydymffurfio â'r rheolau ynghylch ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at eraill.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff systemau da ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae gweithdrefnau diogelu trylwyr yn hyrwyddo llesiant plant. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldeb am fod yn wyliadwrus ac yn glir am y prosesau sydd i'w dilyn wrth ddelio ag unrhyw bryderon. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant diogelu rheolaidd ac yn cael yr holl wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Mae'r staff yn cofnodi anafiadau presennol plant ac maent yn y broses o roi system ffurfiol ar waith fel rhan o'u harchwiliad diogelu. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod y staff a'r plant yn ymwybodol o sut i adael yr adeilad yn ddiogel ac mae'r rhain yn cael eu cynllunio a'u cofnodi'n briodol. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn fanwl, ac fe'u gwerthusir gan yr unigolyn â gofal. Mae'r rhan fwyaf o staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac yn hyderus wrth ymdrin â mân anafiadau. Rhennir gwybodaeth sy'n ymwneud ag alergeddau'r plant gyda'r staff ac mae'n hygyrch iddynt. Rhennir unrhyw newidiadau gan rieni a chaiff cofnodion eu diweddaru.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig a gofalgar. Maent yn gyson yn eu hagwedd ac yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli materion ymddygiad. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu barn a'u hoffterau o ran sut maent yn treulio eu hamser, gweithgareddau a phrynu adnoddau. Mae staff yn defnyddio llais meddal i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n ofidus, ac yn eu canmol am eu hymdrechion. Mae'r staff yn esiamplau da cadarnhaol ac yn rheoli pob un o'u rhyngweithiadau'n briodol. Mae'r staff yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd ac yn ystod gweithgareddau, ac yn sgwrsio â nhw. Mae hyn yn datblygu ymddiriedaeth a chydberthnasau, ac yn hybu hunanhyder y plant.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol ac yn hwyluso amrywiaeth dda o weithgareddau adloniant a hamdden. Mae gweithwyr allweddol yn defnyddio arsylwadau i olrhain cynnydd plant sy'n mynychu'r gwasanaeth cofleidiol ac yn cynllunio gweithgareddau i fodloni canlyniadau penodol. Mae gan bob plentyn ddau lyfr taith ddysgu sy'n darparu cofnodion da iawn o'u hamser yn y lleoliad. Mae'r rhain yn cynnwys ffotograffau o weithgareddau ac enghreifftiau o waith plant i ddangos y sgiliau a gyflawnwyd. Nid yw'r staff yn cofnodi safbwyntiau a hoffterau'r plant ar hyn o bryd. Mae'r staff yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybod am gynnydd, cyflawniadau a datblygiadau eu plentyn. Defnyddir yr iaith Gymraeg trwy gydol y sesiynau gan yr holl staff ac mae'r plant yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff. Mae’r gwasanaeth wedi’i leoli yn adeilad yr awdurdod lleol, sy’n darparu llety eang ar gyfer gweithgareddau plant mewn dwy ystafell fawr.  Mae un ystafell yn arwain allan i ardal yr ardd. Mae'r holl gyfleusterau yn ddeniadol, yn hygyrch ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda iawn. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol gan y staff i nodi a gwaredu ag unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae cofrestri’n cofnodi'r amseroedd y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn monitro'r broses o gofrestru ac allgofnodi wrth gyrraedd a gadael y gwasanaeth i sicrhau y cynhelir neu y rhagorir cymarebau staff ar bob adeg. Mae asesiadau risg trylwyr ar waith ar gyfer pob rhan o'r gwasanaeth ac mae’r rhain yn cynnwys diogelwch tân, COVID-19, a holl weithgareddau'r plant. Maent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd gan yr unigolyn â gofal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion o'r holl ymwelwyr â'r lleoliad, ond nid oedd hawl gan ymwelwyr i fynd i fewn i'r adeilad yn ystod y pandemig COVID-19 oni bai fod hyn yn hanfodol. Maent yn sicrhau y cynhelir gwiriadau cynnal a chadw cyson a rheolaidd ar gyfer yr adeilad a'r offer.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Mae staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol yn glanhau'r adeilad yn drylwyr bob bore a bob nos. Mae staff sy'n gweithio gyda phlant yn cyflawni dyletswyddau glanweithdra a glanhau yn ôl yr angen trwy gydol y sesiynau. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn darparu ardaloedd golau a llachar i blant eu harchwilio. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da, ynghyd ag amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae'r plant yn gallu cyrchu'r holl offer yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth.  Mae offer ac adnoddau yn doreithiog ac yn briodol ar gyfer cyfnod datblygiad yr holl blant, gan hyrwyddo chwilfrydedd a darganfyddiad. Rhennir y toiled a'r cyfleusterau gyda gwasanaeth arall ac maent yn lân ac yn hygyrch.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd rheolaidd i chwarae yn yr awyr agored. Rhennir yr ardal hon gyda gwasanaeth arall, ond mae amserlen gytunedig yn sicrhau bod pob grŵp yn defnyddio'r ardal ar wahanol adegau. Mae'r ardal yn ddeniadol ac yn cynnig cyfleoedd da iawn i blant chwarae'n egnïol. Mae'r staff yn annog y plant i archwilio'r ardal sydd yn yr awyr agored. Roedd rhai plant yn awyddus i ddangos a thrafod sut roedd y rhew yn effeithio ar y pryfed genwair a chreaduriaid bach eraill yr ardd. Roedd y plant yn awyddus iawn i reidio'r beiciau a'r ceir ar

y llwybr dynodedig, yn ogystal â defnyddio'r offer dringo. Mae'r holl offer ac adnoddau yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol ac yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae datganiad o ddiben clir sy'n darparu darlun manwl gywir o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn rhedeg. Mae hwn yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r lleoliad ac yn rhoi cymorth da i'r unigolyn â gofal a'i thîm i sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu bodloni'n dda bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n galed i ddarparu gofal o ansawdd i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn uchel eu cymhelliant, ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r unigolion o fewn y tîm yn ategu ei gilydd ac yn cydweithio'n dda. Mae'r unigolyn â gofal yn cynnal amgylchedd trefnus ac mae'n hawdd cyrchu'r holl ddogfennau, sydd mewn trefn dda. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith, maent yn cael eu diweddaru'n gyson, ac maent yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Mae gwiriadau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau eu swyddi. Mae'r unigolyn â gofal yn deall y dylid cadw holl wybodaeth y staff mewn ffeiliau staff ar y safle yn hytrach na'r brif swyddfa. Mae digonedd o staff cymwysedig a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal da bob amser.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn bodoli o fewn y lleoliad. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu, cymorth cyntaf a diogelwch bwyd yn ogystal ag amrediad o ddysgu ychwanegol. Mae'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn ystyried barn y rhieni, y plant a'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus ac mae cynllun gweithredu yn amlinellu'r gwaith sydd wedi'i gynllunio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ystyried materion a godwyd gan rieni a phlant ac yn rhoi newidiadau ar waith cyn belled ag y bo modd gwneud hynny. Mae'r unigolyn â gofal yn sicrhau bod staff yn mynychu cyfarfodydd 'noson rhieni newydd' yn yr ysgol leol. Mae hwn yn gyfle da i drafod anghenion gofal plant gyda darpar rieni a darparu gwybodaeth am y gwasanaeth.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Cofnodi safbwyntiau, barn a syniadau plant yn ffurfiol.

A2. Datblygu system ffurfiol i gofnodi anafiadau presennol plant .

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 8 (3) (a) Atodlen 1.30 | Nid oes gan chwech o'r unigolion cofrestredig â gofal wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi'u cydlofnodi gan Weinidogion Cymru. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | AMHERTHNASOL |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 08/02/2022